# Pwyllgor rhanbarth y gogledd

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Gwener 3 Hydref 2003 |
| Amser: | 10.00am tan12.25pm |
| Lleoliad: | Neuadd Dwyfor, Pwllheli |

### Yn bresennol:

#### Aelodau:

| | |
|---|---|
| Janet Ryder, Cadeirydd | Gogledd Cymru |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |

#### Cyflwynwyr:

| | |
|---|---|
| Wyn Hobson | Aelod o Bwyllgor Gwaith Cymuned |
| Seimon Glyn | Aelod o Bwyllgor Gwaith Cymuned |
| Walis George | Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Clwyd |
| John Glyn Jones | Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Eryri |
| Keith Edwards | Cyfarwyddwr, Sefydliad Tai Rhestredig Cymru |
| Gwynne Jones | Ysgrifennydd Cangen, Sefydliad Tai Rhestredig Cymru |

#### Ysgrifenyddiaeth:

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Silvia Ricondo | Gweinyddwraig y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor, y rhai a oedd yn bresennol a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth Ann Jones, Denise Idris- Jones, John Marek, Sandy Mewies, Alun Pugh, Carl Sargeant, Karen Sinclair, Dafydd Elis-Thomas a Brynle Williams.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd y byddai Tom Jones, aelod o Gomisiwn Richard yn arsylwi'r cyfarfod.

**Eitem 2: Cofnodion ac Adroddiad y Cyfarfod Blaenorol**

2.1 Cytunodd y Pwyllgor fod cofnodion ac adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2003 yn gywir.

**Eitem 3: Rhaglen waith y Pwyllgor**

3.1 Yn y cyfarfod blaenorol cafwyd awgrym gan aelodau'r cyhoedd y dylai'r Pwyllgor gyfarfod fin nos. Dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod fod Pwyllgor Busnes y Cynulliad wedi cytuno i dreialu pwyllgor fin nos, os oedd y Pwyllgor yn cytuno.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ei gyfarfod nesaf nos Iau 27 Tachwedd.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor ar ei raglen waith, yn unol â'r argymhelliad yn y papur.

**Eitem 4: Tai Fforddiadwy a Chymunedau Cynaliadwy**

4.1 Eglurodd y Cadeirydd mai diben yr eitem oedd clywed sylwadau'r cyhoedd ar faterion yn ymwneud â thai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng Ngogledd Cymru, fel rhan o ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'r pwnc.

4.2 Nodwyd bod Chris Ruane AS Dyffryn Clwyd wedi cyfrannu at y drafodaeth drwy gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

4.3 Cafwyd sylwadau gan Cymuned, Cymdeithas Tai Eryri a Chymdeithas Tai Clwyd a Sefydliad Tai Rhestredig Cymru, ac yna cafwyd cwestiynau a sylwadau gan y cyhoedd.

4.4 Mae crynodeb o'r pwyntiau a godwyd i'w gael yn yr adroddiad amgaeedig NWR(2)-02-03(r2), a gyflwynir i Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a'r Gweinidogion perthnasol.

4.5 Am 11.55 a.m. nid oedd cworwm digonol i gynnal y cyfarfod, ac wedi hynny aeth rhagddo ar ffurf cyfarfod anffurfiol ar gyfer Aelodau’r Pwyllgor.

## Dyddiad y cyfarfod nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor nos Iau 27 Tachwedd yng Nghanolfan Busnes Conwy.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau

Hydref 2003